

Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

Sally Holland

Papur ar safbwynt Comisiynydd Plant Cymru o ran argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

Cyflwyniad

Fe gychwynais yn fy swydd ar 20 Ebrill 2015 ac ers i mi gyrraedd rwyf wedi treulio amser yn gwrandao ar fy nhîm o staff ac yn gweithio gyda nhw i edrych ar arferion gwaith cyfredol y sefydliad. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar yr argymhellion a gafwyd yn adolygiad Dr Shooter o'r swyddfa hon. Mae wedi bod yn ddefnyddiol cael cyfres o argymhellion annibynnol i'w hystyried yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd, ac rwyf wedi cynnwys rhai ohonynt yn fy ymgynghoriad helaeth cyfredol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion, 'Beth Nesa' // What Next'. Isod rwyf wedi darparu fy safbwynt presennol o ran pob argymhelliad a wnaed gan Dr Shooter.

Rhwng mis Ebrill a mis Awst fe wnes i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda mwy na 1000 o blant a phobl ifanc o bob oed oedd yn byw mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau. Fe fues i hefyd yn cwrdd â mwy na 200 o weithwyr proffesiynol a rhieni ac yn gwrandao arny'n nhw. Mae canfyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori hyn wedi cael eu dadansoddi'n thematig, a datblygwyd arolwg hygyrch ar raddfa fawr, a fydd yn cau ar 2 Tachwedd. Mae rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg yn ymwneud yn uniongyrchol ag argymhellion yr adolygiad, gan gynnwys sut mae cynnwys plant a phobl ifanc yn strwythur llywodraethu fy swyddfa a theitl fy swydd. Byddaf yn adrodd ar yr ymgynghoriad ac yn cyflwyno fy nodau strategol ym mis Ionawr 2016. Bydd yn adrodd ar y strwythur trefniadol a'r dulliau gwaith a fydd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nodau.

Un o'r blaenoriaethau i mi a'm sefydliad yn dilyn yr adolygiad yw gwella ein sylfaen ddeddfwriaethol, er mwyn sicrhau y galluogir Comisiynydd Plant Cymru i hybu a diogelu hawliau a llesiant *holl* blant a phobl ifanc Cymru, ar *bob* mater. Pan grewyd fy rôl, roedd hynny'n tystio i swyddogaeth hanfodol sefydliad hawliau dynol annibynnol wrth amddiffyn a hybu hawliau a llesiant plant a phobl ifanc, a dyna pam mae angen pencampwr gwirioneddol annibynnol arnom ni.

Argymhelliad 1.1: Dylid archwilio cyfleoedd ar gyfer cyd-fenter rhwng Comisiynwyr ac Ombwdsmyr yng Nghymru mewn perthynas â materion hawliau dynol cyffredin.

Argymhelliad 1.2: Dylid ceisio mwy o eglurder o ran eu priod gyfrifoldebau lle mae materion yn gorgyffwrdd â'u ffiniau.

Rwy'n agored i archwilio'r posibilrwydd o fwy o gydweithio ac mae fy swyddfa eisoes mewn cysylltiad â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch hyn. Mae annibyniaeth yn un o'r nodweddion sy'n diffinio unrhyw gorff seiliedig ar hawliau, ac mae'r CU yn gweld hynny fel ffynhonnell cyfreithlondeb ac awdurdod. Gan gadw hyn mewn cof, rwy'n cefnogi cyd-fentrau a allai gynhyrchu gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc, ac felly wella mynediad pob dinesydd i'w hawliau dynol.

Argymhelliad 2: Dylid cychwyn trafodaethau i uno rhai o swyddogaethau swyddfa gefn y 4 comisiynydd statudol a fydd yn bodoli cyn bo hir a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, neu i archwilio opsiynau cost-ffeithiol eraill.

Rwy'n ymwybodol o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC), sy'n cydnabod nad oes llawer i'w arbed yn ariannol trwy rannu swyddogaethau 'swyddfa gefn'¹. Wedi dweud hynny, rwyf wrthi'n gweithio gyda'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Chomisiynwyr eraill ledled Cymru i ymateb i holl argymhellion y PCC, gyda'r nod o sicrhau trefniadau anffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad. Rydym eisoes wedi nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt yn ystod 2015/16, gan gynnwys adolygu a diweddarau Memoranda Dealltwriaeth sydd eisoes yn bodoli, crynhoi rhaglenni dysgu a datblygu i'r staff, edrych ar y potensial i gaffael gwasanaeth archwilio mewnol cyffredin a chydweithio ar yr adolygiad gofynnol o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol presennol.

Argymhelliad 3: Dylid archwilio'r posibilrwydd o gael un Ddeddf ar gyfer yr holl Gomisiynwyr ac Ombwdsmon yng Nghymru.

Argymhelliad 4.1: Dylid archwilio dull gweithredu mwy cyson o ran Comisiynwyr yng Nghymru, eu diben, eu cyllid, eu hatebolrwydd a'u trefn lywodraethu.

Argymhelliad 4.2: Gallai hyn gael ei danategu gan un Ddeddf, a dylid ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.

Er y byddwn i'n cefnogi mynd ati i archwilio'r posibilrwydd o gael un darn o ddeddfwriaeth a fyddai'n cwmpasu holl Gomisiynwyr ac Ombwdsmon Cymru, y flaenoriaeth i mi a'm sefydliad fyddai cyfnerthu a diweddarau ein deddfwriaeth bresennol i sicrhau bod cylch gorchwyl deddfwriaethol Comisiynydd Plant Cymru yn cael ei gryfhau. Dyma'r canlyniad oedd mewn golwg gan fy rhagflaenydd pan alwodd am adolygu'r trefniadau presennol yn ffurfiol. Byddem am sicrhau bod y deddfwriaeth newydd yn galluogi'r Comisiynydd i weithredu ar bob mater sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru neu'n effeithio arnynt, er mwyn hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc, a grisialwyd yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Argymhelliad 5.1: Dylai swydd Comisiynydd Plant Cymru gael ei hadolygu'n annibynnol unwaith yn ystod pob cyfnod llawn yn y swydd. Argymhelliad 5.2: Dylai hwn fod yn ofyniad statudol.

Rwy'n cytuno y dylid sicrhau dealltwriaeth dda o'r craffu mewnol ac allanol sy'n digwydd ar hyd cyfnod Comisiynydd yn y swydd, ac y dylid rhannu gwybodaeth yn briodol. Byddai fy swyddfa'n cytuno bod asesiadau annibynnol o'r gwaith y mae'n ei wneud yn ddymunol ac yn angenrheidiol, ac mae nifer o archwiliadau annibynnol eisoes yn cael eu cynnal yn systematig, gan gynnwys systemau archwilio mewnol ac allanol. Rwy'n cytuno bod angen adolygu cyrff cyhoeddus mewn modd mwy systemig o bryd i'w gilydd, ac rwy'n hapus i'm swydd fod yn agored i'w hadolygu fel rhan o raglen dreigl a ddefnyddir ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod angen i hyn fod yn ofyniad statudol.

¹ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10127%20-%20report%20of%20the%20public%20accounts%20committee%20-%20%20scrutiny%20of%20accounts%202013%20-14/cr-ld10127-e.pdf>

Argymhelliad 6: Ceir egwyddorion eglur ynghylch annibyniaeth cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ym maes hawliau dynol. Dylai Llywodraeth Cymru eu cydnabod ac ymlynu wrthynt trwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb am benodi a chyllido'r Comisiynydd Plant i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Argymhelliad 7: Dylai'r broses o benodi'r Comisiynydd Plant ddal i gael ei chyflawni trwy recriwtio agored cyhoeddus a chan bwyllgor penodi o aelodau trawsbleidiol, gyda chynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Mae fy swyddfa wedi galw am drosglwyddo atebolrwydd a threfniadau llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar hyn o bryd, mae penodi'r Comisiynydd Plant yn rhan o gylch gorchwyl Llywodraeth Cymru; pennir telerau ac amodau'r penodiad gan Lywodraeth Cymru; a Phrif Weinidog Cymru, yn amodol ar Ddeddf Safonau Gofal, sy'n gyfrifol am ddiswyddo.

Derbynnir cyllid y Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru, corff y mae disgwyl i mi ei alw i gyfrif, ac y gallwn gynnal adolygiad ohono. Mae rhaid i mi adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflawni fy nghynllun gwaith. Yn rhinwedd fy swydd fel sefydliad hawliau dynol annibynnol dros hawliau plant, byddai annibyniaeth ar adain weithredol y llywodraeth yn rhoi llawer mwy o eglurder i'm rôl. Er y dylid cydnabod na fu ymyrraeth amhriodol, yn ymarferol, i beryglu rôl y Comisiynydd, ni ellir anwybyddu'r gwrthdaro buddiant sylfaenol hwn. Nid yw chwaith yn bosibl rhagweld beth fyddai camau a dulliau gweithredu posibl Llywodraethau'r dyfodol. Byddai gwahanu yn y modd hwn yn cydymffurfio ag Egwyddorion Paris, sy'n amlinellu arfer gorau o ran annibyniaeth ymhlith Ombwdsmyr a Chomisiynwyr. Rwy'n cefnogi'r alwad am benodi sefydliad hawliau dynol plant yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol, a sicrhau ei fod yn adrodd i'r corff hwnnw'n ogystal.

Byddai angen sicrhau na ellid diswyddo'r Comisiynydd ond o dan amgylchiadau eithriadol, a bod gan y Comisiynydd ddisgresiwn llwyr o ran sut cyflawnid swyddogaethau'r swydd, heb i hynny fod yn amodol ar gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth yn achos Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn caniatáu diswyddo ar sail camymddygiad, ac mae'n galw am gynnig llwyddiannus yn y Cynulliad, gydag o leiaf ddau draean o nifer yr Aelodau Cynulliad yn pleidleisio o'i blaid.

Mae deddfwriaeth yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi'n benodol bod gan yr "Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran sut cyflawnir swyddogaethau'r swydd honno, heb i hynny fod yn amodol ar gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cymru" (Adran 8 (1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013). Defnyddir geiriad tebyg hefyd yn y ddeddfwriaeth ar gyfer yr Ombwdsmon, a byddai'n briodol ar gyfer y Comisiynydd Plant.

Wrth adolygu'r argymhelliad hwn, gallai Llywodraeth Cymru ystyried yr argymhellion a wnaed yn Adolygiad Dunford o Swydd Comisiynydd Plant Lloegr², er mwyn sicrhau bod Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Weinidogion Cymru (ac mai dyna'r canfyddiad o'r swydd).

Rwy'n cytuno y dylid penodi'r Comisiynydd trwy recriwtio agored cyhoeddus a chan bwyllgor penodi gydag aelodau o bob plaid, gan gynnwys, yn bwysicaf oll, fewnbwn ystyrion gan blant a phobl ifanc. Er i mi brofi proses deg a chytbwys wrth gael fy recriwtio fy hun, yn ddelfrydol byddai hyn yng ngofal y corff deddfu yn hytrach na'r weithrediaeth, er mwyn diogelu rhag unrhyw ganfyddiad mai penodiad gwleidyddol yw hwn, ac i sicrhau annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.

² <https://www.gov.uk/government/publications/review-of-the-office-of-the-childrens-commissioner-england>

Argymhelliad 8: Dylai fod strwythur mwy ffurfiol ar gyfer craffu ar y Comisiynydd Plant, a rhannu'r gwaith hwnnw rhwng pwyllgorau cyllid a phynciol priodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Efallai y bydd ar aelodau o'r Pwyllgorau hynny angen hyfforddiant ar swyddogaethau'r Comisiynydd er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau craffu.

Rwy'n cefnogi'r farn y dylid craffu'n drylwyr ar waith y swyddfa gan Bwyllgorau priodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid pennu hyn yn ffurfiol trwy'r deddfwriaeth ac fel rhan o Reolau Sefydlog y Cynulliad, fel yn achos yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, yn hytrach na'n trefniadau presennol, sydd wedi'u seilio ar gonfensiwn. Yn y tymor hir, dylai deddfwriaeth y Comisiynydd gynnwys darpariaethau o'r fath, ond yn y tymor byr, dylid chwilio am ateb trwy gyfrwng rheolau sefydlog CCC.

Argymhelliad 9.1: Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd Plant fod â Bwrdd Cynghori.

Argymhelliad 9.2: Dylai'r broses o benodi i'r Bwrdd gael ei harwain gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael ei llywodraethu gan y Broses Penodiadau Cyhoeddus, y dylai'r Comisiynydd fod yn rhan ohoni. Argymhelliad 9.3: Yn ddelfrydol dylai pob un o'r Comisiynwyr yng Nghymru eistedd ar Banel/Bwrdd Cynghori un o'r Comisiynwyr eraill.

Rwy'n cefnogi sefydlu corff cynghori, a byddwn yn dymuno iddo fod wedi'i sefydlu erbyn 1af Ebrill 2016 neu cyn gynted ag sy'n bosibl wedi hynny. Bydd angen i'r datblygiad hwn roi sylw i'r trefniadau Pwyllgor Archwilio a Risg presennol sydd eisoes ar waith. Rhaid i gorff cynghori, er ei fod yn annibynnol ac yn wrthrychol, beidio â chyfyngu ar ymarfer swyddogaethau'r Comisiynydd, a rhaid bod iddo swyddogaeth cynghorol yn unig. Rhaid i'r recriwtio i'r grŵp fod yn agored, a glynu at egwyddorion Nolan. Hoffwn drafod gyda Llywodraeth Cymru y broses orau ar gyfer hwyluso hyn.

Rwy'n tueddu i beidio â chytuno y dylai pob un o'r Comisiynwyr yng Nghymru hefyd fod yn aelod o Banel/Bwrdd Cynghori un o'r Comisiynwyr eraill, ac eithrio Bwrdd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n statudol ofynnol. Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw hybu a diogelu hawliau a lles plant yng Nghymru, a rhaid i mi ymrwymo fy amser a'm hegni i gyflawni'r nod hwn, yn hytrach na chynghori eraill ynghylch y ffordd orau o gyflawni eu nodau a'u hamcanion hwythau. Mae Memoranda Dealltwriaeth eisoes yn bodoli rhwng holl Gomisiynwyr ac Ombwdsmyr Cymru, yn amlinellu ein trefniadau gwaith gweithredol, ac rydym yn cyfathrebu â'n gilydd yn rheolaidd, gan gydweithio fel sy'n briodol.

Argymhelliad 10: Dylai'r amcangyfrifon o gyllideb y Comisiynydd fod yn llawer mwy manwl nag ar hyn o bryd.

Mae'r trefniadau llywodraethu cyfredol yn fy ngalluogi i gyflawni fy swyddogaethau fel Swyddog Cyfrifyddu a bodloni'r gofynion a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Er bod y trefniadau llywodraethu yn ddigonol ac yn cydymffurfio ag arfer gorau, gellid gwella lefel y craffu a'r atebolrwydd agored a thryloyw. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol fy mod yn cyflwyno amcangyfrif o'm hincwm a'm gwariant i Lywodraeth Cymru, bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati (£1.715 miliwn yn 2013-14). Caiff yr amcangyfrif hwn ei gyfuno ag amcangyfrif blynyddol Llywodraeth Cymru ei hun (£16,170 miliwn o Gyfanswm Gwariant a Reolir yn 2013-14), sy'n cael ei drafod gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad. Nid yw Cwmpas y penderfyniad ar y gyllideb ond yn cyfeirio at swyddfa'r Comisiynydd fel rhan o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi; ac nid yw'n datgelu'r union gais am adnoddau a gyflwynwyd gan swyddfa'r Comisiynydd.

Nid yw cais y Comisiynydd am adnoddau'n cael ei ddatgelu'n agored nac yn dryloyw, felly, ac mae hynny'n golygu nad oes modd i'r Pwyllgor Cyllid a'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar amcangyfrif y Comisiynydd. Mae hyn mewn cyferbyniad â sefyllfa cyrff fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiwn y Cynulliad. Mae gofyn bod y cyrff hynny'n cyflwyno amcangyfrifon cyllideb unigol yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Cyllid, sy'n craffu ar gais y sefydliadau am adnoddau. Wedyn defnyddir yr amcangyfrifon hynny yn rhan o'r arian a dynnir i lawr o Gronfa Gyfunol Cymru, wedi i'r Cynulliad basio penderfyniad ar y gyllideb sy'n awdurdodi tynnu cyllid i lawr. Er mwyn gwella lefel y craffu ar gyllideb y Comisiynydd, byddai mabwysiadu proses debyg i'r un sy'n berthnasol i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynyddu lefel yr atebolrwydd agored a thryloyw.

Bu cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i ddiwygio'r trefniadau cyllidebu a chyflwyno ar gyfer mis Hydref 2015, a byddaf yn cyflwyno amcangyfrif llawnach.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth gynhwysfawr genedlaethol ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant. Dylai CCUHP a gwaith Comisiynydd Plant Cymru fod yn rhan o hyfforddiant athrawon, gweithwyr cymdeithasol, personél iechyd a phob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a dylai fod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgolion.

Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn yn llawn, gan ei fod yn cydnabod rôl hollbwysig Llywodraeth Cymru yn y gwaith o weithredu ei dyletswydd o dan Erthygl 42 o CCUHP, sef cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant, CCUHP, a gwaith Comisiynydd Plant Cymru.

Argymhelliad 12: Dylai cefndir cyfreithiol Comisiynydd Plant Cymru gael ei gyfnerthu a'i symleiddio mewn un darn o deddfwriaeth Gymreig. Dylai'r deddfwriaeth hon wahaniaethu'n fwy eglur rhwng prif nodau, swyddogaethau, pwerau, dyletswyddau a chylchoedd gorchwyl.

Dylai'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru gael ei chyfnerthu a'i symleiddio mewn un darn newydd o deddfwriaeth, fydd yn nodi'r dyletswyddau a'r pwerau penodol sy'n rhan o'r cylch gorchwyl. Ar gychwyn y Rhaglen Lywodraethu, roedd ymrwymiad i gryfhau rôl Comisiynydd Plant Cymru³, ond mae fy fframwaith deddfwriaethol yn dal heb gael ei newid.

Ar hyn o bryd cyflwynir pwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd mewn tri deddfiad gwahanol. Derbyniwyd ers blynyddoedd lawer fod angen diwygio sylfaen statudol Comisiynydd Plant Cymru, a bu consensws ar y mater hwn ar draws y pleidiau. Cyflwynir diffygion y cylch gorchwyl deddfwriaethol presennol ar gyfer y Comisiynydd yn fanwl mewn papur cynghori a baratowyd ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd er mwyn cefnogi Bil Plant a Phobl Ifanc arfaethedig (Gweler Atodiad 1). Er nad yw'r Bil arfaethedig wedi dod i fodolaeth, a bod y papur wedi cael ei lunio cyn unrhyw drafodaethau ynghylch Bil Cymru yn sgîl cytundeb Gŵyl Ddewi, mae canfyddiadau'r papur yn dal yn hynod berthnasol ac yn cefnogi llawer o'r dyheadau i egluro ac ehangu rôl a chylch gorchwyl y Comisiynydd.

Byddwn yn croesawu'n arbennig y cynnig bod deddfwriaeth newydd yn cyflwyno swyddogaethau'r Comisiynydd mewn modd cyffredinol, gyda'r prif nod o ddiogelu a hybu hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae defnyddio pwerau statudol y Comisiynydd i adolygu swyddogaethau wedi sicrhau cynnydd a gafael ym meysydd cwynion a darparu eiriolaeth, ac rwy'n gobeithio parhau i adeiladu ar sylfeini'r ddau Gomisiynydd cyntaf.

³ <http://www.assemblywales.org/en/bus-home/pages/plenaryitem.aspx?category=Record%20of%20Proceedings&itemid=752>

Mae fy swyddfa wedi nodi'n flaenorol bod angen edrych ymhellach ar a yw deddfwriaeth y Comisiynydd Plant yn cynnig y ddarpariaeth ofynnol neu beidio er mwyn herio Gweinidogion yn effeithiol yng nghyswllt dyletswydd sylw dyledus, sy'n rhan o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y cyfeirir ato fel 'y Mesur'). Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod y Cynllun Hawliau Plant (y cyfeirir ato fel 'y Cynllun') yn nodi y gall y rhai sydd am herio Gweinidogion Cymru geisio gwneud hynny trwy Gomisiynydd Plant Cymru.

Ar hyn o bryd mae Comisiynydd Plant Cymru wedi'i gynnwys yn briodol yn Adran 10 o'r Cynllun, "Beth gall plant a phobl ifanc (neu eu cynrychiolwyr) ei wneud os byddant yn teimlo nad yw Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i CCUHP?" Dylai gwybodaeth o fewn y cynllun nodi'n eglur y camau gweithredu y gallwn eu cymryd wrth gynrychioli plant a phobl ifanc unigol, yn unol â'r cylch gorchwyl deddfwriaethol presennol. Er y gallwn i adolygu sut bu i un o Weinidogion Cymru ymarfer ei swyddogaethau wrth ystyried i ba raddau y mae hawliau a lles plant wedi derbyn sylw; petawn i am edrych ar drefniadau adolygu a monitro Gweinidogion (a gorfodi Gweinidogion i ddarparu gwybodaeth benodol a pherthnasol at ddibenion yr adolygiad), ni allwn wneud hynny ond yng nghyswllt cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth fel rhan o'r cylch gorchwyl deddfwriaethol presennol. Mae angen felly rhoi sylw pellach i'r awgrym yn y cynllun y gallai'r Comisiynydd ddefnyddio pwerau cyfreithiol ac o bosibl gynnal adolygiad os bydd plant a phobl ifanc yn teimlo nad yw Gweinidogion wedi rhoi sylw i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. **Ateb syml i hyn fyddai cyfuno pwerau adolygu'r Comisiynydd fel bod modd i mi alw deiliaid dyletswydd i gyfrif ar bob mater sy'n ymwneud â phlant fel rhan o'r cylch gorchwyl.**

Byddai sicrhau bod gennyf bŵer i ofyn am unrhyw wybodaeth y gallai fod arnaf ei hangen yn rhesymol gan unrhyw berson at ddibenion cyflawni fy swyddogaethau yn golygu bod fy nghylch gorchwyl yn cyfateb i eiddo Comisiynydd Plant Lloegr, Egwyddorion Paris a'r hyn a nodwyd yn Sylw Cyffredinol Rhif 2: "Dylid rhoi i Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol y pwerau angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu mandad yn effeithiol, gan gynnwys pŵer i glywed gan unrhyw berson a chasglu unrhyw wybodaeth a dogfennau sy'n angenrheidiol i asesu'r sefyllfaoedd sydd o fewn eu cymhwysedd."⁴

Argymhelliad 13: Nid oes rheswm argyhoeddiadol dros ehangu pwerau'r Comisiynydd Plant i gynnwys pwerau sancsiynu, ac mae sawl rheswm pam y byddai gwneud hynny'n wrthgynhyrchiol.

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 14: Dylid estyn cylch gorchwyl Comisiynydd Plant Cymru i gynnwys yr holl faterion, pa un a ydynt wedi'u datganoli ai peidio, sy'n ymwneud â lles plant a phobl ifanc sy'n byw fel arfer yng Nghymru.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraethau eraill y Deyrnas Unedig i ddod o hyd i ffordd o fynegi'r egwyddor hon mewn deddfwriaeth newydd.

Fel rwyf wedi dadlau ar hyd y papur hwn, rwy'n cefnogi'r argymhelliad i ehangu'r pwerau a fydd yn hwyluso gallu'r Comisiynydd i weithredu ar bob mater sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru neu'n effeithio arnynt. Ni fyddai hyn o reidrwydd yn galw am ddatganoli pwerau deddfu neu weithredu pellach i Gymru. Yn wir, mae'n anodd deall pam mae angen cysylltu swyddogaethau'r Comisiynydd â materion datganoledig perthnasol yn unig (neu beth bynnag fydd y setliad cyfansoddiadol

⁴ Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Sylw Cyffredinol Rhif 2, The role of independent national human rights institutions in the promotion and protection of the rights of the child, U.N. Doc. CRC/GC/2002/2 (2002). Para. 9.

perthnasol ar ôl gweithredu Bil Cymru). Rôl y Comisiynydd yw gofalu am fuddiannau plant yng Nghymru. Mae hyn ar wahân i fater pa bwerau deddfwriaethol a gweithredol sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru.

Cyflwynodd Comisiynwyr y Deyrnas Unedig yr argymhelliad canlynol i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn 2015:

*"Yn unol ag Egwyddorion Paris, dylai'r Comisiynwyr Plant gael mandad gan eu cyrff deddfu yn hytrach na'u llywodraethau, a meddu ar yr adnoddau dynol ac ariannol angenrheidiol i gyflawni eu mandad mewn modd effeithiol, cydlynus, fel bod hawliau pob plentyn ym mhob rhan o'r parti Gwladol yn cael eu diogelu."*⁵

Yn yr un modd, dyma oedd argymhelliad yr Athro Dunford, yn ei adolygiad annibynnol o Swydd Comisiynydd Plant Lloegr:

*"children's commissioners should be responsible for the interests of children and young people who normally reside in their countries. If possible, this principle should be enshrined in law."*⁶

Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn dal heb ei ddatrys er gwaethaf y newidiadau i rôl Comisiynydd Plant Lloegr yn sgîl Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Rwy'n credu bod cyfle gwirioneddol i'r argymhelliad hwn o'r adolygiad annibynnol ysbrydoli sylfaen ddeddfwriaethol newydd ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru.

Byddai rhoi awdurdod i'r Comisiynydd ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â Chymru yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer plant yng Nghymru, ac un Comisiynydd yn berson cyswllt ynghylch diogelu a hybu eu hawliau a'u llesiant. Byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i unrhyw drefniadau adrodd ychwanegol a allai fod yn ofynnol petai gennyf awdurdod i weithredu ar faterion heb eu datganoli, er bod gennyf eisoes rai dyletswyddau o ran adrodd i Ddau Dŷ'r Senedd yn Llundain.⁷ Byddai hyn yn golygu bod modd i'r Comisiynydd fod yn fwy effeithiol wrth hyrwyddo hawliau plant a chynyddu ymwybyddiaeth o'm swyddfa, gan helpu Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflawni ei nod o sicrhau mai'r Deyrnas Unedig yw'r wlad yn Ewrop sy'n rhoi'r gefnogaeth fwyaf i blant ('to make the UK the most child-friendly country in Europe').⁸

Argymhelliad 16.2: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymhellach ei hymrwymiad i gyfranogiad yn ei gwaith ei hun.

Argymhelliad 16.3: Dylai'r Comisiynydd ddal i'w dwyn i gyfrif am yr ymrwymiad hwn.

Rwy'n cefnogi'n llawn yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymhellach ei hymrwymiad i gyfranogiad yn ei gwaith ei hun, gan gydnabod rôl bwysig Llywodraeth Cymru wrth gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant, CCUHP, a gwaith Comisiynydd Plant Cymru.

Mae agenda cyfranogiad yn wynebu heriau sylweddol ac mae'r seilwaith cefnogi wedi cael ei leihau yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2014 daeth Llywodraeth Cymru â'r gefnogaeth ariannol i'r Ddraig Ffynici, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru, i ben. Ddiwedd 2014 croesawodd fy swyddfa'r cyllid a ddyrannwyd i ddatblygu prosiect Cymru Ifanc, sy'n ceisio ehangu'r dulliau sydd ar gael i blant a phobl ifanc ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chynorthwyo a llywio datblygiad polisi

⁵ <http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/564.pdf>

⁶ <https://www.education.gov.uk/publications/standard/publicationdetail/page1/CM%207981>

⁷ Gweler Rheoliadau 13 ac 15 yn y Rheoliadau

⁸ Rhagair y Ddeddfwriaeth Ddrafft

ledled Cymru. Edrychwn ymlaen at weld sut bydd gwaith Cymru Ifanc yn datblygu, sut y bydd yn pennu ac yn cyflawni ei nodau, a'n gobaith yw gallu cefnogi'r gwaith hwnnw ym mhob modd posibl.

Mae'n bwysig deall beth yw Cymru Ifanc, a beth nad ydyw. Yn ôl ein dealltwriaeth ni, nid bwriad y prosiect yw darparu system ddemocrataidd, dan arweiniad cyfoedion, i blant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol. Mae cyfle, felly, i ddatblygu ymhellach systemau a fydd yn galw Llywodraeth Cymru i gyfrif, nad ydynt wedi'u llunio i gefnogi gwaith y Llywodraeth yn uniongyrchol.

Mae rhai datblygiadau ar lefel genedlaethol a allai arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol, er enghreifftiau gosod disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod y seilwaith lleol ar gyfer hwyluso a chefnogi'r ymrwymadau cenedlaethol yn wynebu heriau sylweddol. Mae'r heriau hyn ar ffurf cyfyngiadau ariannol yn bennaf, yn ogystal â'r dull gweithredu oed-gynhwysol ym maes polisi, wrth i ni weld symud i ffwrdd oddi wrth drefniadau partneriaeth i blant a phobl ifanc at strwythurau newydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) wedi gwneud cynnydd o ran ei ymdrechion ei hun i gynnwys plant a phobl ifanc yn ei waith. Mae'r modd arloesol y mae plant a phobl ifanc wedi cynorthwyo'r corff deddfu i edrych ar faterion a chraffu ar Lywodraeth Cymru i'w groesawu. Mae cyfle i CCC barhau i ddatblygu ei waith, er enghraifft trwy alluogi plant a phobl ifanc i helpu i bennu'r agenda ac ystyried sut mae ffurfioli ei strwythurau cyfranogol ymhellach. Mae hwn yn fater pwysig y dylid ei drafod wrth baratoi ar gyfer etholiadau CCC a'i drosglwyddo i'r Cynulliad newydd gan yr ACau, fel bod modd cyflawni cynnydd pellach.

Argymhelliad 17: Dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn glir o ran rôl ffurfiol plant a phobl ifanc yn y broses o benodi'r Comisiynydd Plant.

Mae "Rheoliadau (Penodi) Comisiynydd Plant Cymru 2000" eisoes yn nodi "Na chaniateir penodi'r Comisiynydd ond ar ôl rhoi sylw i

b) farn plant perthnasol ynghylch unrhyw ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld ar gyfer y penodiad".

Dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd adlewyrchu hyn yn ogystal.

Argymhelliad 18: Dylid ymestyn cylch gorchwyl y Comisiynydd Plant i bob person ifanc hyd at 25 mlwydd oed.

Yn y gorffennol mae fy swyddfa wedi dadlau yn erbyn estyn CCUHP a'r Mesur Hawliau yn gyffredinol i gynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed. Rydym yn credu bod dulliau mwy effeithiol o gymhwyso a chynnal hawliau dynol ymhlith pobl ifanc 19-25 oed, ac nid ydym yn credu bod modd cymhwyso CCUHP i'r grŵp oedran hwn.

Nid yw CCUHP, yn ogystal â'r holl ddeunyddiau cysylltiedig sy'n deillio o Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, yn ddigonol at ddiben amddiffyn hawliau pobl dros 18 oed. Mae CCUHP yn bodoli oherwydd y ffaith bod plant o dan 18 oed yn agored i niwed mewn ffyrdd arbennig, a bod angen mesurau diogelu ac amddiffyniad arbennig arnynt. Dylai unrhyw Gomisiynydd Plant fod yn canolbwyntio ar y grŵp hwn.

Gallai pennu rhwymedigaethau Gweinidogol ar sail anghysondeb mor sylfaenol arwain at gryn ddryswch, a hynny ar adeg pan fo llawer o waith i'w wneud o hyd i wella ymwybyddiaeth o CCUHP yng Nghymru. Byddem hefyd yn pryderu y gallai estyn rhwymedigaethau gael effaith negyddol trwy gyfeirio ffocws oddi wrth y rhai a ddylai fod yn elwa o'r Mesur Hawliau ar hyn o bryd.

Argymhelliad 19: Dylid newid y teitl i Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Cymru.

Cyflwynodd fy swyddfa i dîm yr adolygiad y gallai teitl Comisiynydd Plant Cymru gael ei newid, er mwyn adlewyrchu'n briodol yr ystod oedran sydd eisoes yn cael ei chwmpasu gan gylch gorchwyl y Comisiynydd, gan ein bod yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal hyd at 21 oed, a hyd at 25 os ydynt yn dal ym myd addysg. Serch hynny, gallai teitl hwy ymddangos yn anhylaw. Hoffwn wybod mwy am farn pobl ifanc ynghylch y posibilrwydd o newid y teitl, ac mae hynny'n rhan o'r hymgyngoriad 'Beth Nesa'/What Next' ar hyn o bryd.

Argymhelliad 20: Dylai fod yn ofynnol i ymgeisydd llwyddiannus roi'r gorau i bob swydd bresennol lle gall fod canfyddiad o wrthdaro buddiannau.

O ran Argymhelliad 20, mae fy nhelerau a'm hamodau innau eisoes yn adlewyrchu'r argymhelliad hwn, ac rwyf wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

Argymhelliad 21: Dylai Comisiynydd Plant Cymru gael ei benodi am un cyfnod penodedig o 6 blynedd, fydd yn cwmpasu dau gynllun gwaith 3 blynedd.

Argymhelliad 22: Dylid ystyried darparu contract ar gyfer y Comisiynydd Plant, ac ynddi "ddyletswydd gofal", deilydd y ddyletswydd honno, yn ogystal â chynnwys darpariaeth ynghylch beth ddylai neu na ddylai ddigwydd ar ôl gadael y swydd.

Argymhelliad 23.1: Dylai'r broses o benodi'r Dirprwy Gomisiynydd ddigwydd trwy'r Broses Penodiadau Cyhoeddus dan arweiniad CCC, a dylai'r Comisiynydd fod yn rhan o'r broses.

Argymhelliad 23.2: Dylai statws y Dirprwy Gomisiynydd, ei gyfnod yn y swydd, yr amgylchiadau pryd y gellid dirprwyo pwerau'r Comisiynydd iddo a'r broses ar gyfer ei symud o'r swydd gael eu sefydlu mewn deddfwriaeth.

Argymhelliad 25: Dylai'r Comisiynydd Plant barhau i feddu ar yr annibyniaeth a ddaw yn sgîl bod yn "gorfforaeth un person". Ond ni ddylai hyn fod ar draul atebolrwydd allanol a threfniadau llywodraethu mewnol priodol.

Argymhelliad 26: Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd Plant gynhyrchu dau gynllun gwaith 3 blynedd yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Dylai ei Hadroddiad Blyneddol gael ei defnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i asesu'r cynnydd mewn perthynas â'r cynlluniau gwaith hynny. Dylai'r dogfennau hynny gael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n addas ar gyfer craffu.

Mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym iawn i blant a phobl ifanc, mae'r swyddfa'n cytuno â'r awgrym o weithio ar sail cynlluniau strategol tair blynedd. Yn dilyn adolygiad mewnol o broses cynllunio corfforaethol y sefydliad ym mis Mai 2014, mae ein hymarfer eisoes wedi newid; o 2016 bydd gennym ddau gynllun gwaith tair blynedd.

Mae'r cyfnod presennol o 7 mlynedd yn y swydd yn caniatáu lle ac amser priodol i bob Comisiynydd newydd ymgynghori a dylanwadu'n bersonol ar ddatblygiad a chyfeiriad eu cynllun 3 blynedd cyntaf.

Mae ymddygiad y Comisiynydd yn y swydd ac ar ôl gadael y swydd yn fater o gydwybod mewn gwirionedd, ond byddem ni'n awgrymu bod modd, trwy ddatblygu protocol neu gontract rhwng Llywodraeth Cymru a deilydd y swydd sy'n amlinellu disgwyliadau rhesymol yng nghyswllt y rôl a chanllawiau cyffredinol ynghylch gadael y swydd, i ni gryfhau a diogelu rôl y Comisiynydd a llesiant y sawl sy'n cyflawni'r swydd honno.

Rwyf wedi dysgu sut mae fy swyddfa'n cynnal prosesau recriwtio trylwyr ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys y Dirprwy Gomisiynydd. Mae plant a phobl ifanc a rhanddeiliaid wedi cael eu cynnwys wrth recriwtio a dethol y Dirprwy Gomisiynydd a phob swydd arall, a bydd hynny'n parhau.

Mae holl swyddogaethau'r Comisiynydd wedi'u breinio yn neilydd y swydd fel corfforaeth un person, ac mae hyn yn cynnwys penodi'r staff. Petai'r Cynulliad neu'r Llywodraeth yn gyfrifol am benodi'r dirprwy, ni allai ef neu hi fod yn un o gyflogaion y Comisiynydd.

Rwy'n aelod gweithredol o Rwydwaith Comisiynwyr Plant ac Ombwdsmyr Prydain ac Iwerddon (BINOCC) a Rhwydwaith Ewrop o Gomisiynwyr ac Ombwdsmyr (ENOC). Mae pedwar Comisiynydd Plant y Deyrnas Unedig yn cydweithio i fonitro ac adrodd ar CCUHP, gan alw Parti Gwladol y Deyrnas Unedig i gyfrif ynghylch gwireddu hawliau plant a phobl ifanc ar draws pob awdurdodaeth, ac yng nghyswllt dylanwadu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch materion heb eu datganoli, megis tlodi plant, cyfiawnder ieuencid, lloches a mewnfudo.

Mae'r Comisiynydd yn gorfforaeth un person oherwydd penderfynwyd mai'r ffordd orau o ymarfer y swyddogaethau a roddwyd gan y ddeddfwriaeth alluogi oedd gan unigolyn, yn hytrach na chorff dan arweiniad bwrdd corfforaethol (corfforaeth gorfforaethol). Nid yw statws corfforaeth un person, ynddo'i hun, yn gwarantu bod deilydd y swydd yn annibynnol. Nid yw chwaith yn awgrymu na ddylai deilydd y swydd gael ei eithrio rhag craffu mewnol ac allanol. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn adolygu fy strwythurau llywodraethu mewnol, gan gynnwys fy atebolrwydd i blant a phobl ifanc, ac rwy'n disgwyl rhoi strwythur cryfach ar waith yn ystod 2016.

Argymhelliad 24: Mae Comisiynwyr ac Ombwdsmyr Plant yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yn mynd i'r afael â phroblemau cyffredin mewn ffyrdd gwahanol. Dylid defnyddio'r cyfle i ddysgu oddi wrth ei gilydd a dangos sut rhoddwyd hyn ar waith.

Rwy'n aelod gweithredol o Rwydwaith Comisiynwyr Plant ac Ombwdsmyr Prydain ac Iwerddon (BINOCC) a Rhwydwaith Ewrop o Gomisiynwyr ac Ombwdsmyr (ENOC). Mae pedwar Comisiynydd Plant y Deyrnas Unedig yn cydweithio i fonitro ac adrodd ar CCUHP, gan alw Parti Gwladol y Deyrnas Unedig i gyfrif ynghylch gwireddu hawliau plant a phobl ifanc ar draws pob awdurdodaeth, ac yng nghyswllt dylanwadu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch materion heb eu datganoli, megis tlodi plant, cyfiawnder ieuencid, lloches a mewnfudo. Ers cychwyn yn swydd y Comisiynydd, rwyf wedi adolygu'r trefniadau cyffredol, ac wedi ystyried cyfleoedd i gydweithio'n fwy.

Argymhelliad 27: Dylai fod gan wasanaeth Ymchwilio a Chynghori Comisiynydd Plant Cymru feini prawf mwy eglur ar gyfer derbyn achosion a'u cau a threfniadau dilynol mwy trylwyr ar gyfer y rhai a gyfeirir at asiantaethau eraill.

Er bod fy nghylch gorchwyl statudol yn darparu sylfaen o ran cymhwyster achosion i'm swyddfa ymwneud â nhw, mae argymhelliad yr adolygiad yn gyfle i ni egluro'r meini prawf yr ydym yn gweithio tuag atynt. Rwyf wedi rhoi cyfarwyddyd i'r tîm Ymchwilio a Chynghori weithredu argymhellion a roddwyd i'r tîm yn sgîl adolygiad arall o'r gwasanaeth a gomisiynwyd gan fy rhagflaenydd, drwy law arbenigwyr allanol, a fydd yn helpu i symleiddio llif achosion trwy'r sefydliad a rheoli disgwyliadau'r rhai sy'n cyrchu'r gwasanaeth.

Argymhelliad 28: Dylid gwneud mwy o ddefnydd, a hwnnw'n ddefnydd mwy deallus, o'r data a gesglir, o ymchwil, ac o farn plant a phobl ifanc i lywio polisi'r Comisiynydd. Dylid diweddarau'r system TG fel ei bod yn fwy defnyddiol at y diben hwn.

Ar sail fy mhrofiadau academaidd a phroffesiynol rwy'n eithriadol ymwybodol o bwysigrwydd adolygu'n barhaus y defnydd a wneir o ddata, gwaith ymchwil a barn plant a phobl ifanc er mwyn llywio polisi. Mae rhaglen waith sylweddol wedi cael ei rhoi ar waith gan fy swyddfa i ymdrin â rheoli data, ac rwy'n sicr y bydd fy nghynllun strategol 3 blynedd yn cynnwys cynllun ymchwil a dadansoddi cadarn. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn casglu ac yn cymathu data yn helpu i sbarduno gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Argymhelliad 29: Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd gyfiawnhau cydbwysedd ei gwaith pan fo CCC a'i bwyllgorau'n craffu ar ei chynlluniau gwaith a'i Hadroddiadau Blynyddol.

Byddai craffu effeithiol ar gynlluniau gwaith ac adroddiadau blynyddol y Comisiynydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i bwyllgorau yn golygu bod modd i hyn ddigwydd. Er fy mod yn cytuno â'r argymhelliad, mater i Lywodraeth Cymru neu AC Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw symud ymlaen gyda hyn trwy sicrhau gofynion deddfwriaethol newydd, er mai mesur interim fyddai ymgorffori'r gofyniad hwn yn rheolau sefydlog y Cynulliad.

Argymhelliad 30: Dylai'r Comisiynydd ystyried newid cydbwysedd ei gwaith tuag at chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddylanwadu ar brosesau llunio polisiâu a deddfwriaeth y Llywodraeth, mewn ffyrdd nad ydynt yn peryglu ei hannibyniaeth.

Wrth i mi weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu fy nghynllun corfforaethol tair blynedd (Beth Nesa' / What Next'), byddaf ar yr un pryd yn ystyried y ffordd orau o ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth a chydbwyso gwaith y swyddfa er mwyn cyflawni'r nodau strategol a threfniadol y byddwn yn canolbwyntio arnynt. Fel rhan o hynny, byddaf yn asesu'r cydbwysedd gwaith presennol gyda'm tîm ac yn gwerthuso sut rydym wedi ceisio dylanwadu ar lunio polisi a deddfwriaeth yn y gorffennol.

Mae lefel y gwaith sydd mewn llaw gan fy Swyddogion Polisi, Materion Cyhoeddus ac Uwch wedi creu argraff arnaf ar unwaith, ac rwy'n llawn brwdfrydedd ynghylch y posibilrwydd o sicrhau bod tîm mor gryf yn gallu tyfu a datblygu ymhellach.

Argymhelliad 31: Cyn unrhyw gamau ymchwilio, dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â chyrff ymchwilio statudol er mwyn tynnu ar waith blaenorol ac egluro rolau. Dylai hyn fod yn ddyletswydd statudol er mwyn osgoi dyblygu.

Er bod fy nghylch gorchwyl statudol yn darparu sylfaen o ran cymhwyster achosion i'm swyddfa ymwneud â nhw, mae argymhelliad yr adolygiad yn gyfle i ni egluro'r meini prawf yr ydym yn gweithio tuag atynt. Rwyf wedi rhoi cyfarwyddyd i'r tîm Ymchwilio a Chynghori weithredu argymhellion a roddwyd i'r tîm yn sgîl adolygiad arall o'r gwasanaeth a gomisiynwyd gan fy rhagflaenydd, drwy law arbenigwyr allanol, a fydd yn helpu i symleiddio llif achosion trwy'r sefydliad a rheoli disgwyliadau'r rhai sy'n cyrchu'r gwasanaeth.

Wrth arwain fy adolygiad thematig cyntaf, rwyf wedi sicrhau ymgynghori â chyrff eraill, megis AGGCC, Cyngor Gofal Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau Plant, Estyn a Llywodraeth Cymru yng nghyfnodau cynnar yr adolygiad.

Argymhelliad 32: Dylai fod gan y Comisiynydd bolisi ffurfiol ar gyfer y cronfeydd wrth gefn sy'n rhan o'r swydd. Dylid ystyried sut gellid defnyddio rhai o'r cronfeydd wrth gefn yn well ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae'n eu cynrychioli.

Rwy'n cytuno y dylai fod gan y swyddfa bolisi ffurfiol ar gronfeydd wrth gefn. Mae'r Comisiynydd yn gorfod dilyn rheolau a chanllawiau Trysorfa Ei Mawrhydi; ac mae fy nghyfrifon blynyddol yn cael eu hegluro gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r swyddfa wedi datblygu polisi ar gronfeydd wrth gefn gan ddilyn argymhellion Pwyllgor PCC y Cynulliad. Byddaf yn ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

Argymhelliad 33: Dylai llais plant a phobl ifanc fod yn ganolog i fandad, craffu ac effaith gwaith Comisiynydd Plant Cymru. Dylai eu lleisiau gyfrannu at Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd neu gael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu hadroddiadau cyfochrog eu hunain.

Rwy'n cytuno'n llwyr y dylai llais plant a phobl ifanc fod yn ganolog i fandad a gwaith craffu fy swyddfa, a gallaf dystio bod hyn yn digwydd mewn sawl ffordd ar hyn o bryd, er nad yw'n cael ei fynegi mor eglur ag y gallai fod. Byddaf yn adolygu'r arfer cyfredol. Trwy fy ymgynghoriad 'Beth Nesa' / What Next' ac ar y cyd â'm swyddfa byddaf yn ystyried y ffordd orau o adlewyrchu hyn yn ein holl lifoedd gwaith a'r broses o lunio'r Adroddiad Blynyddol. Rwy'n dal yn ymroddedig i sicrhau bod cynnwys plant a phobl ifanc yn ganolog i'm gwaith, yn destun adroddiadau clir, a bydd hynny'n rhan o'm cynllun corfforaethol 3 blynedd cyntaf.

Argymhelliad 34: Dylai argymhellion a wneir gan y Comisiynydd mewn unrhyw adroddiadau gael eu dilyn drwedd yn fwy trylwyr a systematig i asesu cydymffurfiaeth a'u heffaith bosibl.

Mae'n hanfodol bod y swyddfa'n rhoi sylw dilynol i argymhellion mewn adroddiadau, yn enwedig rhai a wnaed ar ôl defnyddio pwerau deddfwriaethol.

Argymhelliad 35: Dylai'r Comisiynydd Plant ail-sefydlu Grŵp Cyngori rheolaidd, ffurfiol o blant a phobl ifanc i lywio'i gwaith, gyda phroses ymgynghori ehangach i'r Grŵp Cyngori hwnnw wirio'i fandad ei hun.

Rwyf wrthi'n adolygu sut mae fy swyddfa'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, er mwyn penderfynu ar y ffordd orau iddynt lywio gwaith y Comisiynydd, a sut gellir dangos hynny'n eglur i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn debygol o gynnwys grŵp cyngori ffurfiol, yn ogystal ag egluro sut gellir cynnwys cronfa ehangach o blant a phobl ifanc yn rheolaidd yn y broses o lywio fy ngwaith.

Argymhelliad 36: Dylid rhoi mwy o gyfle i blant a phobl ifanc gyfrannu'n rhagweithiol at bolisiau'r Comisiynydd Plant trwy broses y cynllun gwaith 3 blynedd. Dylent fod yn rhan o graffu ar gynnydd y Comisiynydd, naill ai trwy gyfrannu at yr Adroddiadau Blynyddol neu drwy gyflwyno'u hadroddiadau cyfochrog eu hunain gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar fy niwrnod cyntaf yn y swydd fe wnes i ymrwymo i gynnal ymgynghoriad mawr gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae 'Beth nesa' / What next' yn galluogi plant, pobl ifanc ac oedolion i'm helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer y cyntaf o'm cynlluniau corfforaethol tair blynedd, ar gyfer 2016 – 2019. Cyn lansio'r arolwg ymgynghori ym mis Medi, bu fy nhim a minnau'n cwrdd â phlant, pobl ifanc ac oedolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd er mwyn pennu a chytuno ar y meysydd pwnc oedd i'w cynnwys yn yr arolwg. Un o'r meysydd hyn fydd canfod sut mae plant a phobl ifanc eu hunain yn teimlo y dylent fy ngalw i gyfrif fel pencampwr iddynt, yn absenoldeb Cynulliad Cenedlaethol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Argymhelliad 37: Ceir canfyddiad bod Comisiynydd Plant Cymru'n llai hygyrch i grwpiau lleiafrifol na gweddill plant a phobl ifanc. Dylai'r Comisiynydd gymryd camau mwy gweithredol i fynd i'r afael â hyn.

Mae rheoli canfyddiadau a disgwyliadau rôl a ddiffiniwyd yn gyffredinol gan gylch gorchwyl y Comisiynydd yn her ynddo'i hun, ac mae rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng hyrwyddo hawliau pob plentyn a pherson ifanc a cheisio amddiffyn y rhai nad ydynt bob amser yn derbyn eu hawliau. Rwyf wedi herio fy nhîm i feddwl am sut rydym ni'n ymgysylltu â holl blant a phobl ifanc Cymru, ac rwy'n edrych ymlaen at ddod i gysylltiad creadigol â phob rhwydwaith trwy fy mhroses ymgynghori 'Beth Nesa' / What next'. Rwy'n fodlon ar waith mae'r swyddfa eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â llawer o grwpiau lleiafrifol agored i niwed megis plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc ag anabledau, ceiswyr lloches, a gofalywyr ifanc. Fodd bynnag, nid wyf yn llaesu dwylo, ac rwy'n credu y gallwn fod yn fwy strategol, gan sicrhau mwy o effaith, mwy o ffocws ar blant, a gweithredu mwy pwrpasol wrth symud ymlaen.

Argymhelliad 38: Dylai'r Comisiynydd barhau i ystyried deddfwriaeth gydraddoldeb mewn perthynas â chyfansoddiad ei staff. Dylid rhoi ystyriaeth i gyllido swydd uwch er mwyn ymgysylltu'n llawnach â chymunedau lleiafrifol.

Er nad yw cyfansoddiad gweithlu Comisiynydd Plant Cymru'n eithriadol o amrywiol ar hyn o bryd, mae'r swyddfa'n hyderus ei bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gydraddoldeb, ac mae'n gwbl ymroddedig i wella'n barhaus ein gallu i gynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn.

Fel y nodwyd yn fy ymateb i argymhelliad 37, rwy'n fodlon ar waith a wnaed gan y swyddfa mewn perthynas â llawer o grwpiau lleiafrifol agored i niwed, ac mae'n well gen i wreiddio'r ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol ymhellach yng ngwaith y swyddfa gyfan, yn hytrach na chyflogi i swydd benodol at y diben hwn.

Yn unol ag arfer da, byddaf yn adolygu'n rhagweithiol sut caiff grwpiau a dangynrychiolir eu hannog a'u galluogi i wneud cais am swyddi yn fy swyddfa.

Argymhelliad 39: Dylai'r Comisiynydd fabwysiadu dull rhychwant oes o bennu blaenoriaethau polisi. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn cynlluniau gwaith ac Adroddiadau Blynyddol.

Mae fy ymgynghoriad 'Beth Nesa' / What Next' yn defnyddio dull rhychwant oes yn sail ar gyfer ei fethodoleg, a bydd y data a gesglir o'r broses hon yn llywio'r strategaeth gorfforaethol a'r cynlluniau gwaith blynyddol dilynol.

Argymhelliad 40: Dylai'r Comisiynydd ystyried a yw'r swyddfa yn Llansamlet yn rhy bell ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol gyda gwneuthurwyr polisiâu. Dylid ail-asesu gwerth a hyfywedd swyddfa Bae Colwyn. Ni ddylai hyn o anghenraid olygu bod sgiliau a phrofiad y staff sy'n gweithio yno yn cael eu colli.

Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried papur opsiynau a gynhyrchwyd gan dîm rheoli fy swyddfa, ac rwyf wedi cytuno i roi gwybod i'r tîm staff am unrhyw benderfyniadau erbyn mis Tachwedd fan bellaf.

Argymhelliad 41: Dylai'r Comisiynydd Plant ail-ystyried a yw'r strwythurau staffio presennol yn gweithio'n foddhaol.

Nodaf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyflwyno argymhelliad tebyg yn dilyn ei Ymchwiliad i gyfrifon Comisiynwyr.⁹ Wrth i flaenoriaethau ddechrau dod i'r amlwg ar gyfer fy strategaeth gorfforaethol, byddaf yn ceisio alinio strwythur y sefydliad er mwyn cyflawni'r amcanion a bennir gennym ar y cyd.



Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru

Hydref 2015

⁹ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10127%20-%20report%20of%20the%20public%20accounts%20committee%20-%20%20scrutiny%20of%20accounts%202013%20-14/cr-ld10127-e.pdf>